**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithwir ar Zoom ddydd Mawrth, 2 Mawrth, 2023**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Mawrth, 7 Mawrth, 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Mawrth, 14 Mawrth, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mercher, 15 Mawrth, 2023.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd), Ieuan Williams (Cadeirydd), Robin Williams, Alun Roberts a Nicola Roberts

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dyfed Wyn Jones, R. Llewelyn Jones, Ken Taylor, Liz Wood, Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones a Gary Pritchard

(10:00 y. b. i 12:10 y. p.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Monitro Cyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –** |

| | |
|---|---|
| | • **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23.**<br>• **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 y manylir arnynt yn Atodiad C.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH, D a DD.**<br>• **Argymell i Gyngor Sir Ynys Môn y dylai'r Cyngor llawn gymeradwyo symud £1.074m o falansau cyffredinol Cronfa'r Cyngor i gyllideb datganoledig ysgolion, i gwrdd â chostau cyflogau sy'n uwch nag a ganiatawyd yn wreiddiol yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23.**<br>• **Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant net ar ddigartrefedd ac atal digartrefedd, sef amcangyfrif o £260k, i gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer digartrefedd ac atal digartrefedd mewn blynyddoedd i ddod. Y rheswm am y tanwariant yw bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd sylweddol o £273k yn y grant Neb Heb Help.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad cyllideb Refeniw 2022/23.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 3, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnydd y gwariant** |

| | |
|---|---|
| | **a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn ystod Chwarter 3.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad cyllideb Gyfalaf 2022/23.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 3, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br><br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2022/23.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai 22/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –** |

| | |
|---|---|
| | • **Argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r newid yn y terfyn gwrthbarti i awdurdodau lleol eraill yn unol ag adain 5.3 yr adroddiad.**<br>• **Nodi cynnwys yr adroddiad ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda rheoliadau a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor 2022/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth, 2023.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 ac i anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb sylwadau pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd y Datganiad ar y Strategaeth RhT yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau canlynol i'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf am y flwyddyn ariannol gyfredol 2022/23 a thu hwnt –**<br><br>• **Nodi'r adroddiad yn Atodiad 1 ac Adroddiad Grŵp Link Asset sydd wedi'i atodi yn Atodiad 3 ar yr opsiynau Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP).**<br>• **Newid tâl MRP y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar fenthyciadau gyda chefnogaeth gofyniad cyllido cyfalaf (CFR) o 2% o CFR y CRT i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaledig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 1ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**<br>• **Newid MRP y CRT ar fenthyciadau digefnogaeth CFR o 2% CFR y CRT i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaledig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 2ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**<br>• **Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau gyda chefnogaeth CFR o ddull Oes Ased – Rhandaliad Cyfartal i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 46 mlynedd ar gyfradd llog arferol y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 3ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**<br>• **Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau digefnogaeth CFR o ddull Oes Ased – Rhandaliad Cyfartal i ddull Oes Ased – Blwydd-dal ar gyfer 27.5 mlynedd ar gyfradd llog gyfartaledig y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau o 1 Ebrill 2022.**<br>• **Cymeradwyo'r Datganiad Polisi MRP diwygiedig ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn Atodiad 2, sy'n seiliedig ar yr opsiynau yn y pwyntiau bwled uchod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Argymell newidiadau i'r Polisi** |

| | |
|---|---|
| | **Darpariaeth Refeniw Isaf** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf yn ffurfio rhan o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br>• **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad, sef :-**<br><br>**Haen 1 Analog – bydd pawb yn talu £55.90 y chwarter;**<br>**Haen 2 a 3 Analog – bydd pawb yn talu £111.41 y chwarter;**<br>**Haen 1 Digidol – bydd pawb yn talu £71.50 y chwarter;**<br>**Haen 2 a 3 Digidol – bydd pawb yn talu £142.48 y chwarter.**<br>• **Y Taliadau Teleofal Blynyddol, fel yr amlinellir yn Nhabl B, sef:-**<br><br>**Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £133.18;**<br>**Gwasanaethau'n unig £86.08;**<br>**Costau gosod unwaith ac am byth £53.25.**<br>• **Cyfradd o £14.50 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.**<br>• **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd ym mharagraff 5.**<br>• **Cynnydd o 10.57% i £41.55 yn y ffi** |

| | |
|---|---|
| | **ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol.**<br>• **Cynnydd o £1.55 yr awr mewn ffioedd Gofal Cartref i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.**<br>• **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C, sef :-**<br><br>**Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.25;**<br>**Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.05;**<br>**Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.70** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu ffioedd a thaliadau a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2023/24, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o'r broses o osod y gyllideb sy'n cael ei phennu gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn - Pennu Ffi Safonol 2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd codi am gost lawn y gwasanaeth, sef £863.30 yr wythnos** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu'r ffi ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2023/24 yn unol â'r ddeddfwriaeth** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o'r broses o osod y gyllideb sy'n cael ei phennu gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Ffiioedd a Thaliadau 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2023/24, fel yr amlinellir yn y llyfryn atodol i'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu ffioedd a thaliadau ar gyfer 2023/24 nad ydynt yn rhai gofal cymdeithasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o'r broses o osod y gyllideb sy'n cael ei phennu gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Gytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 4 Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad.**<br>• **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £8.6m o falansau cyffredinol.**<br>• **Nodi sylwadau'r Swyddog Adran** |

| | |
|---|---|
| | **151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed, fel y nodir yn Adran 5 Atodiad 1.**<br>• **Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £174.569m i'r Cyngor Sir a chynnydd, yn sgil hynny, o 5.00% (£68.40 – Band D) yn y Dreth Gyngor, gan nodi y câi penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor 9 Mawrth 2023.**<br>• **Y bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad amodol a'r setliad terfynol yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn cyffredinol sydd wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2023/24, neu drwy gyfrannu i / o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.**<br>• **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;**<br>• **Cytuno y byddir yn gallu tynnu cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn sgil unrhyw bwysau, na chawsant eu rhagweld, ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol.**<br>• **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**<br>• **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith.**<br>• **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 75%, ac yn aros ar 100% ar gyfer cartrefi gwag.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cwblhau cynigion y Pwyllgor Gwaith ar** |

| | |
|---|---|
| | **gyfer Cyllideb Refeniw 2023/24 yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd y gyllideb yn cael ei phennu gan y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Strategaeth Gyfalaf**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cefnogi'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a'i hargymell i'r Cyngor Llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cynnig Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn unol â gofynion CIPFA a Chyfansoddiad y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Cyllideb Gyfalaf 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y Rhaglen Gyfalaf ganlynol ar gyfer 2023/24:**<br><br>**£'000**<br><br>**Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen 12,373** |

| | |
|---|---|
| | **Adnewyddu / Amnewid Asedau 5,682**<br>**Prosiectau Cyfalaf Un Tro Newydd 386**<br>**Ysgolion yr 21ain Ganrif 5,964**<br>**Cyfrif Refeniw Tai 13,557**<br><br>**Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2023/24 37,962**<br><br>**Cyllidir Drwy:**<br><br>**Grant Cyfalaf Cyffredinol 3,410**<br>**Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol 2,158**<br>**Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif 919**<br>**Benthyca Digefnogaeth Ysgolion Yr 21ain Ganrif 2,797**<br>**Arian Wrth Gefn y CRT a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn 9,221**<br>**Benthyca Digefnogaeth CRT 0**<br>**Derbyniadau Cyfalaf 500**<br>**Grantiau Allanol 6,584**<br>**Cyllid 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen 12,373**<br><br>**Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 37,962** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cynnig Cyllideb Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd y Gyllideb Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **16 Cynllun y Cyngor 2023-2028**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn ei** |

| | |
|---|---|
| | **gyfarfod ar 9 Mawrth, 2023, yn amodol ar flaenoriaethu'r Iaith Gymraeg yn y rhestr o flaenoriaethau strategol yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cefnogi Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd Cynllun y Cyngor yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **17 Rhannu Swydd ar y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cytuno i newid y Cyfansoddiad er mwyn:**<br>• **Caniatáu i un neu ragor o aelodau rannu swydd fel arweinydd, dirprwy arweinydd ac fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith;**<br>• **Caniatáu i'r uchafswm o aelodau a ganiateir ar y Pwyllgor Gwaith gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchafswm statudol pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd; a**<br>• **Nodi'r trefniadau mewn perthynas â chworwm a phleidleisio pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd**<br>**(a) yn unol â'r geiriad yn Atodiad 1 yn yr adroddiad,**<br>**a**<br>**(b) unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.**<br>• **Os bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau rhannu swydd a / neu nifer** |

| | |
|---|---|
| | **yr unigolion sy'n derbyn cyflog uwch o ganlyniad i'r trefniadau rhannu swydd, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i hynny ar unwaith.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhellion ar y diwygiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu a darparu ar gyfer y newidiadau statudol yn y ddeddfwriaeth.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu ar newidiadau i'r Cyfansoddiad.** |